

Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Mawrth 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Mawrth 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Casgliadau ac Argymhellion5

1. Cyflwyniad.....7

2. Diben y Bil a’r angen amdano9

**3. Sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil
.....17**

4. Costau elfennau eraill y Bil28

5. Adolygiad ôl-weithredu.....33

Casgliadau ac Argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn..... Tudalen 16

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn siomedig â'r diffyg gwybodaeth am gostau cysylltiedig y Bil i randdeiliaid ac felly ni all ddod i gasgliad ynghylch a yw'r adnoddau'n ddigonol ac yn rhesymol er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth..... Tudalen 31

Argymhelliad 1. Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi nodi bod angen rhagor o wybodaeth ariannol. Pe bai newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor i ystyried y newidiadau hynny'n fwy manwl..... Tudalen 16

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach yn dadansoddi ac yn amcangyfrif buddion cost y Bil. Dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni. Tudalen 16

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o eglurder â phosibl am debygolrwydd y risg y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach o ganlyniad i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, difrifoldeb ei effaith ariannol os caiff ei wireddu a goblygiadau ymarferol ailddosbarthu ar Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn newydd. Tudalen 16

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil ac yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ddangos, er eglurder, i ba gostau y mae'r amrywiad +/- 30 y cant yn gymwys. Tudalen 26

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu gwybodaeth fanwl am yr aelodaeth, y cynllun gwaith a'r canlyniadau a fwriedir yn sgil y grŵp gweithredu a strategaeth. Gan gynnwys lle bydd gwaith y grŵp hwn yn arwain at wneud gwelliannau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a beth allai cwmpas y gwelliannau hynny fod..... Tudalen 27

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am ystyriaethau'r grŵp gweithredu a strategaeth ynghylch lleoliad y Comisiwn a nifer y staff, gan gynnwys unrhyw effeithiau ariannol sy'n codi yn sgil gwaith y grŵp..... Tudalen 27

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwaith pellach ar strategaeth leoli, yn enwedig effaith COVID-19 ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hynny, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Tudalen 27

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr effaith ariannol sy'n gysylltiedig â defnyddio ymgynghorwyr TG i drosglwyddo systemau a data Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r Comisiwn newydd, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig..... Tudalen 27

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chyrff eraill yn sgil y ddeddfwriaeth hon. Dylid creu'r costau ac unrhyw oblygiadau ariannol drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt a dylid cynnwys y manylion mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Tudalen 31

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnwys adolygiad ôl-weithredu o'r holl Filiau sydd gerbron y Senedd fel arfer safonol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y caiff gwerth am arian ei asesu..... Tudalen 34

1. Cyflwyniad

- 1.** Cafodd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)¹ (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol², gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, eu cyflwyno gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (y Gweinidog) ar 1 Tachwedd 2021.
- 2.** Ar 3 Tachwedd 2021, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn³.
- 3.** Prif ddiben ac effaith y Bil yw diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a chreu corff newydd o'r enw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- 4.** Mae'r Bil hefyd:
 - yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol, yn ogystal â swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn (rhan 2);
 - yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido'r Comisiwn a chyllido swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas â sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil (addysg uwch ac addysg bellach, addysg drydyddol a hyfforddiant, a'r chweched dosbarth) (rhan 3);
 - yn gwneud darpariaeth ynghylch prentisiaethau (rhan 4);
 - yn gwneud darpariaeth ynghylch diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr (rhan 5);
 - yn gwneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth, cyngor a chanllawiau gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru, ac i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru (rhan 6);
 - yn gwneud darpariaethau amrywiol mewn perthynas â chorfforaethau addysg uwch yng Nghymru a darpariaethau cyffredinol eraill (rhan 7).
- 5.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 24 Tachwedd 2021⁴, gan:

¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#)

² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol](#)

³ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, [3 Tachwedd 2021](#)

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [24 Tachwedd 2021](#)

- Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg;
- Huw Morris, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes;
- Zenny Saunders, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

6. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog⁵ yn gofyn am ragor o wybodaeth. Ar 22 Rhagfyr 2021, ymatebodd y Gweinidog⁶.

7. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar oblygiadau'r Bil o ran polisi⁷.

⁵ Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 26 Tachwedd 2021

⁶ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

2. Diben y Bil a'r angen amdano

Cefndir

8. Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad, dan arweiniad yr Athro Ellen Hazelkorn, o'r trefniadau goruchwyllo addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Roedd hyn yn 'cyfeirio'n benodol' at ddyfodol CCAUC.

9. Mae'r adroddiad dilynol, Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru⁸ (Mawrth 2016) yn nodi'r heriau a'r argymhellion ar gyfer y sector addysg drydyddol.

10. Nododd Llywodraeth flaenorol Cymru yr hyn a gynigai yw dau brif argymhelliad yr adroddiad:

- datblygu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol;
- sefydlu corff newydd hyd braich sy'n gyfrifol am oruchwyllo, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth y sector.⁹

11. Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â'r ail argymhelliad hwn, drwy greu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru o'r enw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn").

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal gwaith dilynol pellach yn y maes hwn yn y cyfnod hyd at gyflwyno'r Bil, gan gynnwys:

- Papur Gwyn: Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig¹⁰ (Mehefin 2017)
- Ymgynghoriad technegol – Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf¹¹ (Ebrill 2018)

⁸ Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru

⁹ Llywodraeth Cymru: Polisi a Strategaeth – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY)

¹⁰ Papur Gwyn: Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig

¹¹ Ymgynghoriad technegol – Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf

- Ymgynghoriad y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft¹² (Gorffennaf 2020)

13. Bydd pwerau CCAUC a Gweinidogion Cymru yn cael eu cydgrynhoi a bydd pwerau newydd yn cael eu sefydlu, a bydd pob un ohonynt yn arferadwy gan y Comisiwn fel y gall reoleiddio, goruchwyllo a chyllido'r sector addysg drydyddol gyfan fel un. Bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu.¹³

14. Gan ymateb i beth yw nodau a dyheadau'r Bil, dywedodd y Gweinidog fod angen i'r sector addysg drydyddol gael ei ddiogelu at y dyfodol a bod trosolwg a strategaeth gydlynol strategol ar gyfer y sector yn hanfodol ar gyfer hynny.¹⁴

15. Dywedodd y Gweinidog, o safbwynt dysgwyr a sefydliadau:

*"we're living in a very rapidly changing context for tertiary education and research — so, whether it's the effect of COVID most recently, but climate change, Brexit, technological challenge that we face as an economy and society, and expectations from our learners, importantly. Any one of those would be a very significant set of changes, but we are facing all of them together. So, I think it's incumbent on us to make sure that we put our post-16 educational sector on the most solid possible foundations to face those challenges and opportunities."*¹⁵

16. Roedd y Gweinidog yn gobeithio y byddai'r Bil yn cyflawni gwell canlyniadau addysgol i ystod eang o ddysgwyr.¹⁶ Ychwanegodd y canlynol:

"the commission will be assessed on its contribution to our national milestones, for example, which are around level 3 or higher qualifications. These are longer term objectives, but the commission will have a very, very important role in helping us meet those goals nationally. Those are absolutely quantifiable. And then, more broadly, a higher skilled workforce delivering more productivity in the economy. Now, that's obviously quantifiable, but in the way that Alma was telling us, probably isn't

¹² Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\) drafft](#)

¹³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 112

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 16

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 15

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 21

straightforwardly directly referable to any particular Bill, but we will want to see that as a product of our reforms as well."¹⁷

Crynodeb o'r costau

17. Ffocws y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a sefydlu'r Comisiwn. Caiff costau eu hasesu dros gyfnod gwerthuso o 10 mlynedd rhwng 2021-22 a 2030-31. Cyfanswm costau'r Bil dros y cyfnod hwnnw yw £45.0 miliwn.¹⁸

Tabl 1 Costau sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Disgrifiad o'r gost	Blynyddoedd	Cost (£,000)
Costau trosiannol	2021-22 i 2023-24	9,949
Costau staffio Llywodraeth Cymru a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	22,976
Costau staffio CCAUC a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	7,308
Costau rheolaidd wrth redeg y Comisiwn	2023-24 i 2030-31	158,221
Cyfanswm costau	2021-22 i 2030-31	198,454
Costau 'gwneud dim'	2021-22 i 2030-31	153,420
Costau ychwanegol net	2021-22 i 2030-31	45,034

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), 1 Tachwedd 2021

18. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y costau rhedeg rheolaidd sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn tua £5 miliwn y flwyddyn yn fwy na'r trefniadau presennol.¹⁹

19. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi mabwysiadu dull darbodus o ymdrin â'r costau ariannol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a bod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar dybiaethau 'rhesymol'.²⁰ Cadarnhaodd ei fod, wrth amcangyfrif costau, wedi defnyddio'r gost sylfaenol ar

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 21

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 93

¹⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 100

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 25

gyfer CCAUC, Llywodraeth Cymru, ac o brofiad blaenorol o sefydlu sefydliadau cymharol eraill megis Cymwysterau Cymru.²¹

Costau trosiannol

20. Amcangyfrifir mai'r costau trosiannol a ysgwyddir rhwng 2021-22 a 2023-24 yw £9.9 miliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn gostau TG, sef £4.9 miliwn. Mae'r costau trosiannol eraill yn cynnwys:

- costau dileu swyddi o £2m (ffigur sy'n seiliedig ar y sefyllfa waethaf a allai godi yn ôl gwaith KPMG);
- £1.8m ar leoliad (gan gynnwys les, a chostau megis costau cysylltu);
- £0.9m ar recriwtio cynnar, cyflogau a chostau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyflogres;
- £0.2 miliwn o gostau bwrdd.²²

21. Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod gan y Comisiwn newydd gostau rhedeg blynyddol o tua £20m, o'i gymharu â'r costau Busnes fel Arfer presennol o £15m y flwyddyn.²³

22. Yn ystod y cyfnod trosiannol, bydd costau 'gwneud dim' o £15.1m y flwyddyn yn parhau i gael eu hysgwyddo.²⁴

Arbedion

23. Cost net y Bil yw £45 miliwn. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mesur unrhyw arbedion cost hyd yma, ond gallai dod â'r timau cyllido a thaliadau o Lywodraeth Cymru a CCAUC at ei gilydd greu "synergeddau ac arbedion".²⁵

24. Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad gan Alma Economics 'Dadansoddiad cost a budd o ddiwygiadau addysg: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth' (wedi'i gynnwys yn **Atodiad B** o'r Memorandwm Esboniadol²⁶), sydd wedi helpu i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r adroddiad yn darparu rhywfaint o dystiolaeth am arbedion i Lywodraeth Cymru, gan nodi:

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 30

²² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 94

²³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 94

²⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 94

²⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 95

²⁶ Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad cost a budd o ddiwygiadau addysg: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth gan Alma Economics

"... gall Llywodraeth Cymru ddisgwyl gweld rhywfaint o ostyngiad yn ei chostau gweinyddu o ganlyniad i ddileu arferion dyblygu gwaith a lleihau nifer y Cyrff a Noddir gan y Llywodraeth sydd â dyletswydd i oruchwyllo a sicrhau ansawdd darparwyr AHO. Serch hynny, bydd y gostyngiad gwirioneddol mewn costau gweinyddu, a'r arbedion effeithlonrwydd sy'n dilyn, yn cael eu penderfynu gan union faint a strwythur y Comisiwn..."²⁷

25. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft, mae CCAUC yn nodi:

"There is no clear vision for what the Commission, created through this legislation, seeks to achieve over and above the current tertiary education system. Therefore, it is difficult to assess what the benefits will be for providers or students in Wales or indeed a return on the public investment into the legislation."²⁸

26. Dywedodd y Gweinidog y bydd y Comisiwn yn dwyn ynghyd swyddogaethau tebyg gan Lywodraeth Cymru a CCAUC gan gynnwys swyddogaethau talu, trefniadau monitro, a systemau TG a dywedodd bod cael system ar y cyd, yn amlwg, yn llawer mwy effeithlon.²⁹

27. Roedd y Gweinidog o'r farn bod potensial i synergeddau ac arbedion yn y dyfodol gael eu gwireddu o ganlyniad i'r Bil, ond ei bod yn rhy gynnar i feintoli'r arbedion hyn ac felly nid oeddent yn pasio'r trothwy darbodaeth hwnnw i'w cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.³⁰ Dywedodd y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid a chyrrff cymharol dros y chwech i naw mis nesaf i gael darlun mwy manwl o arbedion cost posibl.³¹

28. O ran a yw'r Bil yn rhoi gwerth am arian, dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn cael gwared ar y rhwystrau yn y trefniadau presennol er mwyn galluogi'r sector i weithio mewn ffordd fwy effeithlon.³² Aeth yn ei flaen:

"We've got lots of examples between us, I'm sure, of insufficient collaboration, duplication of roles, and we haven't yet been able to achieve that coherent learning pathway. The Bill helps us in that, because those challenges are exacerbated by the current structures, the current funding arrangements and

²⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 237

²⁸ Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Ymateb CCAUC

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 25

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 25

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 26

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 17

*the current systems. So, I think the Bill, in a very real way, helps us move beyond those impediments in the current arrangements that we have."*³³

29. O ran pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl gweld manteision anariannol y Bil, dywedodd:

*"I want to see, soon after the establishment and implementation of the Bill, examples of collaboration between providers in the sector. So, we will want to see the commission funding collaborative projects between different providers around maybe quality, around maybe widening access, research and innovation, using those outcome agreements to drive that. I'll want to see early examples, if this is functioning as we wish it to be, of that articulation agreement between colleges and universities, enabling learners to move smoothly from level 4, level 5 into degree-level qualifications, and system-wide use of sharing of learning and teaching practice in that kind of collaborative way."*³⁴

Dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol

30. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gosod pob uned sefydliadol a geir yn yr economi mewn dosbarth, a hynny ar sail nifer o ddangosyddion. Ar hyn o bryd, caiff sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch eu dosbarthu fel Sefydliadau Nid-er-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd (NPISH), sy'n eu gosod yn y sector preifat. Fe allai unrhyw newid a fyddai'n cynyddu rheolaeth Llywodraeth Cymru dros y cyrff hyn arwain at risg sylweddol y byddai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried eu hailddosbarthu, at ddibenion Cyfrifon Gwladol, fel sefydliadau sy'n perthyn i'r sector cyhoeddus.³⁵

31. Archwiliodd a diystyrododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr opsiwn o ganoli holl swyddogaethau CCAUC i Lywodraeth Cymru, am gost o £172.2 miliwn oherwydd pryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai dosbarthiad darparwyr addysg y Swyddfa Ystadegau Gwladol newid.³⁶

32. Nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

"Efallai mai ar drin cyfalaf yn unig y byddai canoli / dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn effeithio – gan gael effaith niweidiol ar gyllideb gyfalaf

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 17

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 20

³⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 112

³⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 111

*Llywodraeth Cymru. Ac fe allai gael effaith fawr ar yr arian y mae llywodraeth y DU yn ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru.*³⁷

33. Cadarnhaodd y Gweinidog, hyd yn oed heb risg dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, nad canoli holl swyddogaethau CCAUC i Lywodraeth Cymru fyddai'r opsiwn a ffefrir ganddo, am y rheswm a ganlyn:

*"I myself would find it very difficult to justify drawing the Welsh Government into the minutiae of operations of organisations in this sector. I think for particular parts of the sector—for the higher education community in particular—that would have significant impacts on the perception of autonomy, which I myself would absolutely not be comfortable with; I'm sure most of us wouldn't."*³⁸

34. Cydnabu'r Gweinidog y bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu'r Comisiwn unwaith y bydd wedi'i sefydlu ond asesiad Llywodraeth Cymru yw bod y risg yn isel.³⁹

Safbwynt y Pwyllgor

35. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-orfodol gan gynnwys addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, y chweched dosbarth ac addysg oedolion yn y gymuned. Ar hyn o bryd, CCAUC sy'n rheoleiddio a chyllido addysg uwch, ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny ar gyfer y sectorau addysg drydyddol eraill. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd y Comisiwn yn cyfuno'r gweithgareddau hyn o fewn un corff i geisio cyflawni llwybr dysgu cydlynol. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog fod y Bil yn gobeithio sicrhau gwell canlyniadau addysg i ddysgwyr, a fydd yn ei dro yn darparu gweithlu mwy medrus gan ddarparu mwy o gynhyrchiant yn yr economi.

36. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r arbedion a'r buddion wedi'u mesur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig gan fod bwriad i wneud y gwaith hwn yn ystod y 6-9 mis nesaf. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion i'w alluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i arbedion costau fod yn elfen allweddol o'r broses asesu opsiynau a dylai ategu'r broses o wneud penderfyniadau. Rydym yn falch o glywed bod y Gweinidog yn disgwyl i arbedion yn y dyfodol gael eu gwireddu dros amser a'i fod wedi ymrwymo i wneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid i gael gwell dealltwriaeth o'r arbedion cost posibl. Fodd

³⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 112

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 79

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 80

bynnag, hoffai'r Pwyllgor gael esboniad llawnach o fanteision y ddeddfwriaeth hon a phryd y disgwylir iddynt gael eu cyflawni ac nid yw'n glir beth a ataliodd y gwaith hwn rhag cael ei wneud cyn cyflwyno'r Bil.

37. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu'r Comisiwn unwaith y bydd wedi'i sefydlu ac mai asesiad Llywodraeth Cymru yw bod y risg yn isel. O ystyried bod maint risg y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dibynnu ar faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros sefydliadau addysg uwch, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Gweinidog roi eglurhad pellach ar y mater hwn yn ystod hynt y Bil yn y Senedd a hoffai gael sicrwydd ynghylch tebygolrwydd a difrifoldeb y risg.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 1. Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi nodi bod angen rhagor o wybodaeth ariannol. Pe bai newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor i ystyried y newidiadau hynny'n fwy manwl.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach yn dadansoddi ac yn amcangyfrif buddion cost y Bil. Dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o eglurder â phosibl am debygolrwydd y risg y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach o ganlyniad i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, difrifoldeb ei effaith ariannol os caiff ei wireddu a goblygiadau ymarferol ailddosbarthu ar Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn newydd.

3. Sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Rolau a chyfrifoldebau'r Comisiwn newydd

38. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai'r Comisiwn yn gorff 'hyd braich' newydd a phwerus, a chanddo bwerau pellgyrhaeddol a chyllideb sylweddol mwy na £500 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar wariant presennol mewn meysydd perthnasol.⁴⁰

Costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn newydd

39. Mae'r costau a ragwelir yn seiliedig ar gyfnod asesu 10 mlynedd, rhwng 2021-22 a 2030-31, gyda thybiaeth y bydd y Comisiwn yn dod yn weithredol erbyn 2023-24. Mae cyfnod o 10 mlynedd wedi'i ddewis ar y sail bod buddion y Bil "yn debygol o gael eu gwireddu yn y tymor canolig i'r hirdymor", er bod "disgwyl i gostau'r Comisiwn sefydlogi mewn amser byr".⁴¹

40. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu ystod +/- 30 y cant, felly gall cyfanswm y costau ar gyfer y Comisiwn gynyddu o £198.5 miliwn i £258.0 miliwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi: "Bydd yr ystod hon yn lleihau wrth wneud penderfyniadau a chadarnhau rhagdybiaethau er mwyn sefydlu'r Comisiwn."⁴²

41. Mae'r tabl isod yn rhoi darlun o effaith yr amrywiad hwn ar gostau yn fwy cyffredinol a'r costau ychwanegol net yn sgil sefydlu'r Comisiwn.

Tabl 2 Costau enghreifftiol amrywiad o +30% yn y ffigurau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (opsiwn Sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)

Disgrifiad o'r costau	Blynyddoedd	Cost (£0,000)	+30% (£,000)
Costau trosiannol	2021-22 i 2023-24	9,949	12,934
Costau staffio Llywodraeth Cymru a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	22,976	29,869
Costau staffio CCAUC a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	7,308	9,500

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 116

⁴¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 176

⁴² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 177

Disgrifiad o'r costau	Blynyddoedd	Cost (£0,000)	+30% (£,000)
Costau rheolaidd wrth redeg y Comisiwn	2023-21 i 2030-31	158,221	205,687
Cyfanswm costau	2021-22 i 2030-31	198,454	257,990
Llai o gostau "Gwneud Dim"	2021-22 i 2030-31	153,420	153,420
Costau ychwanegol net:		45,034	104,570

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), 1 Tachwedd 2021, Dadansoddiad Ymchwil y Senedd

42. I egluro pam y defnyddiwyd ystod +/- 30 y cant o'r costau amcangyfrifedig, dywedodd y Gweinidog ei fod yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir a'i fod yn ymwybodol bod y Pwyllgor blaenorol wedi bod yn feirniadol o Lywodraeth Cymru am danamcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015^{43, 44}

43. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai'r ystod +/- 30 y cant yr un mor gymwys i bob elfen o'r costau ac y byddai rhai dewisiadau gweithredol yn effeithio'n sylweddol ar yr opsiynau hynny megis lleoliad y Comisiwn, TG a staffio.⁴⁵

44. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod wedi sefydlu strategaeth a grŵp gweithredu gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector ac y byddant yn ei helpu i weithio trwy rai o'r mathau hyn o ddewisiadau mwy manwl wrth symud ymlaen.⁴⁶

45. Dywedodd mai ei fwriad oedd adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn Cyfnod 2 gan ei fod yn ystyried y byddai'r broses gymaint ymhellach ymlaen eto ar y pwynt hwnnw, ac y gellir manteisio ar gyngor rhanddeiliaid bryd hynny hefyd.⁴⁷

Costau lleoliad

46. Mae costau lleoliad yn cael eu hamcangyfrif, "yn absenoldeb tystiolaeth o feddiannaeth ar ôl Covid". Nodir mai syniad yn unig yw'r costau a ddarparwyd, gan nad oes strategaeth leoli wedi'i phennu eto.⁴⁸

⁴³ Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 29

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 30 a 31

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 33

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 39

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 214

47. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd costau rhent tua £100,800 y flwyddyn, ar sail cyfleuster swyddfa pwrpasol sy'n bodoli eisoes yn ne Cymru a fyddai'n darparu lle i 127 o weithwyr cyflogedig ar feddiannaeth o 75 y cant (cyfanswm amcangyfrifedig o staff y Comisiwn o 169).⁴⁹

48. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr amcangyfrif ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar arweiniad a roddodd fy rhagflaenydd i ddarparu llinell sylfaen at ddibenion meincnodi yn unig. Ychwanegodd y canlynol:

*"And that was to explore a combination of options in south-east Wales that reflected the existing critical mass, if you like, of staff both within the Welsh Government and HEFCW. But the early analysis around that has also taken into account, to some extent, staff working remotely in other parts of Wales."*⁵⁰

49. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr amcangyfrif lleoliad yn faes yr oedd angen ei ddiweddarau o ran costau, o ystyried yr hyn a ganlyn:

*"...because of what we are living through at the moment in terms of the impact of COVID on the property market and organisations' choices around establishment of locations, we will need to work through that. ... A traditional office base for the commission in a pre-COVID context is one thing, but, as we are seeing happening in real time now, people are making different choices, aren't they?"*⁵¹

50. O ystyried yr ansicrwydd o ran costau lleoliad a'r gyd-ddibyniaeth rhwng costau lleoliad â chostau eraill, dywedodd y Gweinidog bod y risg allweddol yn ymwneud â COVID-19 a'r galw am weithio mewn swyddfa. Aeth yn ei flaen:

"I think the final choice of location also will carry some risk obviously, especially around impacting the number of staff who transfer into the organisation from the Welsh Government and from HEFCW. There's obviously an element of risk around that. I think, more broadly, there is, in any situation, in any establishment of this sort, risks which wouldn't be unique to this. With a project of this scale, availability of suitable premises is an issue, and then, the larger ticket items, if I could put it like that—office fit

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 214

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 49

⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 50

out, all those sorts of things, also bring with them their own individual elements of risk along the way.”⁵²

51. Yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 22 Rhagfyr, dywedodd:

“Bydd angen i’r penderfyniadau ynghylch lleoliad gymryd i ystyriaeth effaith COVID a newidiadau cymdeithasol ehangach neu bydd gan y Comisiwn ofod swyddfa drud a/neu anaddas.”⁵³

52. Ychwanegodd y Gweinidog y byddai’n ystyried lleoliad presennol CCAUC a gweithlu Llywodraeth Cymru, o ystyried y gallai adleoli o dde-ddwyrain Cymru (er ei fod efallai’n arbed arian i ddechrau) effeithio’n sylweddol ar nifer y staff sy’n trosglwyddo i’r sefydliad, gan gynyddu costau recriwtio a hyfforddi staff yn sylweddol.⁵⁴

Costau staff

53. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y bydd y Comisiwn yn cynnwys 169 aelod o staff⁵⁵, gan dybio y bydd pob un o’r 53 o staff CCAUC yn trosglwyddo i’r sefydliad newydd.⁵⁶ Telir am y costau staffio drwy gyllidebau Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn, gan fod y costau staffio’n cynnwys y timau polisi a nawdd yn Llywodraeth Cymru a fydd yn rheoli’r berthynas â’r Comisiwn newydd.⁵⁷ Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mynd ymlaen i ddweud:

“Bydd angen 45 aelod o staff ychwanegol ar Lywodraeth Cymru ar gyfer y timau Nawdd, Polisi, a TG, er mwyn rheoli’r berthynas â’r sefydliad newydd a diogelu systemau TG y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arnynt hefyd.”⁵⁸

54. Mae cyflogau staff CCAUC wedi’u prasio ar sail brig eu bandiau graddfa yn 2020 ac mae prisiadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog diweddaraf ym mis Ebrill 2020, yn seiliedig ar fandiau uchaf y raddfa gyflog. Mae’r holl gostau ar gyfer staff yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn.⁵⁹

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 51 a 52

⁵³ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

⁵⁴ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

⁵⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 177

⁵⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 209

⁵⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 177

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 209

⁵⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 209

55. Rhagdybir y bydd y rhan fwyaf o'r staff yn trosglwyddo i'r Comisiwn o CCAUC a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen ymarferiad recriwtio a fydd yn costio rhwng tua £80,000 a £100,000 i recriwtio staff newydd yn lle'r rhai a gollwyd.⁶⁰

56. Costau staff yw'r gost fwyaf sy'n wynebu'r Comisiwn newydd. Bydd cyfanswm y costau hyn ychydig yn llai na £13 miliwn y flwyddyn o 2023-24 ymlaen. Cadarnhaodd y Gweinidog mai £3.3 miliwn o'r costau hynny sy'n gostau newydd, a bod y balans o £9.7 miliwn yn ymwneud â staff presennol CCAUC a Llywodraeth Cymru.⁶¹

57. Roedd y Gweinidog o'r farn bod 169 aelod staff yn cynrychioli'r hyn yr ystyriwn yw'r nifer uchaf o staff y byddai ei angen ar y comisiwn⁶². Mae ei ragdybiaethau yn seiliedig ar yr hyn a ganlyn:

*"...many of the tasks that the commission will be carrying out are already, obviously, being carried out by HEFCW and the Welsh Government, so that informed that choice. But there's also been, in addition to that, a range of reference and research visits to other institutions—so, in Scotland and New Zealand, in the Republic of Ireland—to benchmark the staffing arrangements there."*⁶³

58. Yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 22 Rhagfyr, dywedodd:

*"Mae'r model gweithredu targed lefel uchel yn rhagdybio y bydd gan y Comisiwn uchafswm o 169 o staff, gan gynnwys 53 o CCAUC. Mae'r costau staff yn cynnwys holl staff presennol CCAUC a staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar hyn o bryd ar y swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch staffio a rolau, ac felly gwnaed y tybiaethau hyn i amcangyfrif y costau. Mae'r ffigur o 169 yn cynrychioli'r uchafswm o ran staff sydd eu hangen i redeg y Comisiwn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau cyfredol. Dyma ddadansoddiad o'r costau staff o £13m."*⁶⁴

⁶⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 209

⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 65

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 65

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 65

⁶⁴ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

	Staff		Cost (£m)	Nifer y staff
Comisiwn	Presennol	Staff CCAUC	£3.2	53
	Presennol	Staff sy'n trosglwyddo o Lywodraeth Cymru	£6.5	110
	Newydd	Staff ychwanegol ar gyfer TG, Adnoddau Dynol a Chyllid	£0.4	6
Llywodraeth Cymru	Newydd	Staff newydd Tîm Nawdd Llywodraeth Cymru	£2.9	45
		Cyfanswm	£13.0	214

Costau TG

59. Elfen fwyaf y costau hyn yw'r costau trosiannol, sef £4.9 miliwn ar gyfer TG. Rhagwelir y bydd tîm o 8 ymgynghorydd TG yn cael ei gyflogi ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Medi 2023 ar gost o £900 y dydd, er mwyn helpu i drosglwyddo systemau a data CCAUC i'r Comisiwn newydd. At hynny, bydd cost o £200 y mis fesul datblygwr ar gyfer bwrdd gwaith a £750 fesul datblygwr y flwyddyn am drwyddedau.⁶⁵

60. Cadarnhaodd y Gweinidog fod dyfynbrisiau'r ymgynghorwyr yn seiliedig ar gyfraddau'r farchnad⁶⁶, fodd bynnag, dywedodd "there's a significant fluctuation in market rates at the moment around some of these consultancy costs"⁶⁷.

61. Gan ymateb i gwestiwn yn holi a oedd y Gweinidog wedi ystyried cyflogi staff TG yn barhaol i helpu i drosglwyddo systemau a data CCAUC i'r Comisiwn newydd, dywedodd:

"This is a shorter term transitional piece of work, isn't it, so, classically, consultants might be more appropriate for that shorter term piece of work. But, as I say, if it were possible to recruit and that was a value-for-money solution, there would definitely be an openness to that. I think experience

⁶⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 212

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 72

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 54

suggests that it is reasonably challenging to recruit permanent digital staff into those kinds of shorter term roles, but it definitely hasn't been ruled out."⁶⁸

62. Dywedodd y Gweinidog fod rhai gweithdai costau TG wedi'u cynnal gyda'r tîm digidol i wneud yr hyn a ganlyn:

*"test some of these assumptions and to revise the costings then that went into the April documentation, and they're based on, obviously, the latest market rates for consultants and for hardware and for software and so on at that point in time. I think—. Just one thing: some of the costs included here would be incurred regardless of the reform, just because it's about partly upgrading existing legacy systems, and you will know that that's a perennial challenge for large organisations, as you obviously will know. So, in terms of breakdown, there are four main categories. So, the software development is about £0.15 million; the annual security and recertification is about £0.03 million; the user costs are about £4.28 million; and the consultancy costs are about £0.69 million. So, that takes you to £5.15 million overall. So, that's how the costs are broken down."*⁶⁹

63. Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o'r costau 'busnes fel arfer' a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r broses ddiwygio a'r risgiau a allai effeithio ar y costau hyn. Yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 22 Rhagfyr, dywedodd:

*"Mae sefydlu'r Comisiwn yn gyfle i sicrhau bod y system TG sydd ar waith yn perfformio'n dda, yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Mae cynnal y systemau etifeddol presennol yn unig yn arwain at 'gostau cyfle cudd' o ran cynnal prosesau aneffeithlon. Yn ogystal, ymhen amser ni fydd y systemau'n gallu ymdopi â'r diwygiadau uchelgeisiol a'r gofynion y bydd angen eu rhoi arnynt. Ar hyn o bryd, mae costau wedi'u cynnwys ar gyfer uwchraddio a chynnal y systemau presennol yn unig yn hytrach na'u disodli, gan nad yw'n glir ar hyn o bryd pryd yn union y byddai'n rhaid i hyn ddigwydd."*⁷⁰

64. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r costau 'busnes fel arfer' parhaus a'u cymharu â 'chostau parhaus' y Comisiwn.⁷¹

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 55

⁶⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 72

⁷⁰ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

⁷¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

	Costau TG parhaus ar gyfer y Comisiwn (£m)	Costau TG parhaus ar gyfer y Comisiwn (£m) Costau busnes fel arfer (£m)	Gwahaniaeth (£m)
Cost ar gyfer rhedeg TG - meddalwedd datblygu	£0.15	-	£0.15
Cost ar gyfer rhedeg TG - ardystio diogelwch blynyddol	£0.03	-	£0.03
Cost ar gyfer rhedeg TG - costau defnyddwyr	£4.28	£3.13	£1.15
Cost ar gyfer rhedeg TG - ymgynghorwyr TG	£0.69	-	£0.69
Cost uwchraddio/cynnal systemau etifeddol	£0.25	-	£0.25
Cyfanswm	£5.15	£3.38	£1.77

65. Yn ôl y llythyr, mae'r costau a ragwelir wedi'u llywio gan ragdybiaethau sy'n seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau o anghenion a chost y Comisiwn newydd. Aiff ymlaen i ddweud:

"O ystyried mai costau rhedeg TG i ddefnyddwyr yw'r uchaf o'r costau parhaus o bell ffordd, dyma lle mae'r risg fwyaf o wahaniaeth mawr. Rydym wedi lliniaru'r risg honno drwy:

- fod yn ddarbodus yn ein hamcangyfrifon cost, er enghraifft drwy ddefnyddio costau Llywodraeth Cymru ar gyfer caledwedd/meddalwedd ar ben uchaf y raddfa gostau.*
- profi'r tybiaethau gydag aelodau o broffesiwn digidol Llywodraeth Cymru.*
- cynnwys uchafswm nifer y staff yn ein rhagdybiaethau."⁷²*

66. Nododd y Gweinidog yn ei lythyr mai'r tair risg ariannol fwyaf sy'n gysylltiedig â'r Bil yw staffio, TG a lleoliad. Dywedodd y bydd y penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfnod pontio yn effeithio ar yr holl risgiau ariannol, gan nodi:

⁷² Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

*"O ran sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol, mae tîm rhaglen addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd y tîm hwn yn rheoli'r gwaith o gyflawni'r Bil ac yn goruchwyllo'r gweithgarwch deddfwriaethol, gweithredol ac adnoddau dynol etc sy'n angenrheidiol i sefydlu'r Comisiwn. Bydd hefyd yn rheoli risgiau ehangach."*⁷³

Safbwynt y Pwyllgor

67. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog ei fod wedi mabwysiadu dull darbodus o amcangyfrif costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'i fod yn ymwybodol o'r feirniadaeth y mae Llywodraeth flaenorol Cymru wedi'i chael am danamcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i roi deddfwriaeth ar waith yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod amrywiad o +/- 30 y cant yn yr amcangyfrifon cost yn annerbyniol. Mae'r amrywiad yn caniatáu ar gyfer gwahaniaeth o £60 miliwn yng nghostau'r Comisiwn o £198.5 miliwn i £258.0 miliwn yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd. Cadarnhaodd y Gweinidog nad yw'r ystod 30 y cant yn berthnasol i'r holl eitemau costau. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gwneud unrhyw ymdrech i wahaniaethu lle mae'r ystod hon yn gymwys, felly mae'n anodd deall lle mae'r risgiau allweddol mewn gwirionedd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ffordd bwysig o asesu ystod o opsiynau yn feirniadol ac y dylai gynnwys arfarniadau opsiynau manwl i leihau'r amrywiad hwn.

68. Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r wybodaeth ariannol o ran elfennau cost i'r Comisiwn newydd yn hytrach nag amlinellu'r costau hynny fesul maes polisi. Er ei bod yn amlwg yn ddefnyddiol cael costau'r Comisiwn, byddai'n helpu'r gwaith craffu pe bai'r costau hefyd yn cael eu cyflwyno fesul maes polisi lle bo modd, er mwyn galluogi cysylltiad uniongyrchol â deddfwriaeth a bwriadau polisi'r Bil. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pe bai'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn gyson o ran dangos gwybodaeth am gostau fesul polisi i ganiatáu ar gyfer asesu'r costau hyn yn uniongyrchol yn erbyn elfennau unigol y Bil.

69. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw tair o elfennau cost mwyaf sylweddol y Bil sy'n ymwneud â lleoliad y Comisiwn, staffio a TG wedi'u datblygu ymhellach. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod strategaeth a grŵp gweithredu wedi'u sefydlu gyda rhanddeiliaid i wneud rhagor o waith ar gostau a bod y Gweinidog wedi ymrwymo i adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn Cyfnod 2. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i'r Pwyllgor pam na wnaed y gwaith hwn cyn paratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cododd y Pwyllgor Cyllid blaenorol bryderon tebyg yn ei

⁷³ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)⁷⁴ lle y sefydlwyd grŵp gweithredu ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, y byddai ei waith yn allweddol i gyflawni'r ddeddfwriaeth.

70. Mae'r Pwyllgor Cyllid blaenorol wedi bod yn feirniadol ar sawl achlysur o'r arfer o gyflwyno Biliau pan fo asesiadau cost yn anghyflawn neu phan fwriedir cyflawni gwaith pellach yn nes ymlaen. O ystyried bod cyfle'r Pwyllgor i graffu ar y costau yng Nghyfnod 1, ac y gofynnir i'r Senedd wneud penderfyniadau am y Penderfyniad Ariannol, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil sicrhau bod goblygiadau'r Bil o ran costau wedi'u cwblhau pan gaiff y Bil ei gyflwyno.

71. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pandemig wedi creu amgylchedd lle mae'n fwy anodd dewis lleoliad addas ar gyfer y Comisiwn, o ystyried yr ansicrwydd yn y dyfodol o ran ffyrdd o weithio ar ôl COVID-19. Mae'r Gweinidog hefyd wedi tynnu sylw at y risgiau sy'n ymwneud â chostau lleoliad gan gynnwys COVID-19, y farchnad eiddo ac a oes safleoedd addas ar gael. O ystyried y gallai'r costau lleoliad amrywio'n sylweddol a bod rhyngddibyniaeth â chostau eraill, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid gwneud rhagor o waith ar strategaeth leoli fel mater o flaenoriaeth.

72. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo nifer y staff yn y Comisiwn yn seiliedig ar dybio nifer presennol y staff o CCAUC a Llywodraeth Cymru ac ymarferion meincnodi eraill. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ddarparu rhagor o wybodaeth am ddadansoddiad y £13 miliwn ar gyfer staff Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn. Fodd bynnag, teimlwn y dylai'r wybodaeth hon fod wedi bod ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol adeg ei gyflwyno.

73. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai TG (£4.9 miliwn) yw'r elfen fwyaf sylweddol o'r costau trosiannol ac mae'n cydnabod y byddai rhai o'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo er mwyn uwchraddio'r systemau presennol er gwaethaf y diwygiadau. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y costau hyn yn seiliedig ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer ymgynghorwyr a barn y Gweinidog mai ymgynghorwyr fyddai'n gwneud y gwaith tymor byr o drosglwyddo systemau CCAUC i'r Comisiwn newydd yn hytrach na chyflogi staff TG parhaol.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil ac yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ddangos, er eglurder, i ba gostau y mae'r amrywiad +/- 30 y cant yn gymwys.

⁷⁴ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Goblygiadau Ariannol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu gwybodaeth fanwl am yr aelodaeth, y cynllun gwaith a'r canlyniadau a fwriedir yn sgil y grŵp gweithredu a strategaeth. Gan gynnwys lle bydd gwaith y grŵp hwn yn arwain at wneud gwelliannau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a beth allai cwmplas y gwelliannau hynny fod.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am ystyriaethau'r grŵp gweithredu a strategaeth ynghylch lleoliad y Comisiwn a nifer y staff, gan gynnwys unrhyw effeithiau ariannol sy'n codi yn sgil gwaith y grŵp.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwaith pellach ar strategaeth leoli, yn enwedig effaith COVID-19 ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hynny, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr effaith ariannol sy'n gysylltiedig â defnyddio ymgynghorwyr TG i drosglwyddo systemau a data Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r Comisiwn newydd, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

4. Costau elfennau eraill y Bil

Pwerau'r Comisiwn

74. Mae'r Bil yn trosglwyddo cyfres o bwerau oddi wrth Weinidogion Cymru a CCAUC i'r Comisiwn yn Rhannau 2 i 6 o'r Bil, a fydd â goblygiadau sylweddol o ran cost ac adnoddau.

Cofrestr darparwyr addysg drydyddol a chasglu data

75. Mae rhan 2 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol, gyda'r nod o reoleiddio'r darparwyr hyn a rheoli mynediad i'r gofrestr drwy ymchwiliadau a fframweithiau sicrhau ansawdd.⁷⁵

76. Bydd y gofrestr yn "ddull cyfreithiol o reoleiddio a goruchwyllo'n briodol a chymesur darparwyr addysg drydyddol sy'n derbyn cyllid cyhoeddus." Mae hyn yn cynnwys monitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr.⁷⁶

77. Mae rhan 6 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn "gasglu a defnyddio gwybodaeth o bob rhan o'r sector" a bydd gan y Comisiwn "rôl strategol i ddylanwadu ar gyfrifoldebau darparwyr dysgu o ran data, ystadegau ac ymchwil". Yna bydd dyletswydd ar y Comisiwn i roi cyngor a gwybodaeth ar gais Gweinidogion Cymru, gyda rhwymedigaeth debyg ar Weinidogion Cymru, darparwyr addysg drydyddol a chyrrff cyhoeddus amrywiol eraill i rannu gwybodaeth â'r Comisiwn.⁷⁷

78. Dywedodd y Gweinidog mai'r Comisiwn fyddai'n penderfynu sut i gadw cofrestr o ddarparwyr a chronfa ddata gyda data a gasglwyd gan ddarparwyr addysg. Dywedodd fod y staff ystadegol sydd eu hangen i gyflawni'r rôl hon eisoes wedi'u cynnwys yn y costau - "the head count estimates"⁷⁸. Ychwanegodd y canlynol:

"...we've got Qualifications Wales, for example, in the education sector, with a register, data collection system, and we've used that information to update the costs that have gone into the April documentation. So, we have based that on existing experience elsewhere in the public service in Wales."⁷⁹

⁷⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 20

⁷⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 21

⁷⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 54

⁷⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 84

⁷⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 84

79. Pwysleisiodd y Gweinidog:

*"I want to perhaps move us away from this idea of it simply being a database. In terms of the identification of providers, clearly, all that information is available to Welsh Government, to HEFCW and to others, but what we are talking about here is a whole new strategic approach to the sector generally about how funding is allocated and how regulation is engaged, and there are tools—the register is one of them, funding agreements and outcome agreements are another—and each of those will have data implications, obviously, as a consequence of choices the commission makes"*⁸⁰

80. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog ddarparu enghreifftiau o'r hyn y gallai'r drefn newydd o gasglu data ei olygu. Yn ei lythyr dyddiedig 22 Rhagfyr, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae nifer o ffynonellau data yn y sector addysg drydyddol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar ba ddata y bydd y Comisiwn yn ei gasglu, ac felly nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch data ychwanegol. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio enghraifft o ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru gallwn ddangos beth allai casglu data ei olygu a pha welliannau rydym yn gobeithio eu gwneud. Bydd y systemau casglu a defnyddio data yn hanfodol er mwyn cefnogi'r Comisiwn i gyflawni nodau'r broses ddiwygio. Bydd y systemau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r penderfyniadau pwysig y bydd y Comisiwn yn eu gwneud bob dydd."*⁸¹

Costau i gyrff eraill

81. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw'r costau i gyrff ar wahân i Lywodraeth Cymru a CCAUC/y Comisiwn yn hysbys, ac mae'n nodi'r costau y mae Llywodraeth Cymru a CCAUC/y Comisiwn yn gyfrifol amdanynt yn unig.⁸²

82. Mae'r Bil yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i gyrff yn y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol newid eu gweithgareddau mewn meysydd penodol, gyda'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg drydyddol rannu gwybodaeth â'r Comisiwn (Rhan 6), ac yn gosod gofyniad

⁸⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 98

⁸¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

⁸² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 95

cofrestru ar gyfer darparwyr (Rhan 2). Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw'r costau i gyrff eraill yn hysbys ar hyn o bryd.⁸³

83. Nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

*"Ni fu'n bosibl mesur y costau hyn gan y byddant yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn, a gall unrhyw ragdybiaethau a wneir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, er mwyn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, achub y blaen ar y penderfyniadau hyn."*⁸⁴

84. Mewn ymateb ar y cyd, nododd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft yn ddiffygiol mewn nifer o agweddau arwyddocaol, gan nodi:

*"It does not attempt to identify the costs for institutions/providers or other stakeholders at all. It only focuses on the budgetary costs for the Welsh Government."*⁸⁵

85. Gofynnodd y Pwyllgor sut mae'r Gweinidog yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i leddfu eu pryderon. Dywedodd y canlynol:

*"The previous committee was clear that there should be ongoing consultation with stakeholders during the passage of the Bill. We had initial conversations with the sector around the point at which it was sensible to ask for there to be meaningful details provided of the impact on stakeholders of the arrangements, and perfectly understandably, the response was, 'Well, we want to see what the Bill looks like in order to be able to provide that in a granular way.' So, the strategy and implementation board that I chair will be looking at this, obviously, and then we'll be feeding that information into the recast of the RIA in advance of Stage 2. There's an ongoing arrangement of consultation with stakeholders at the moment, in addition to the, I think, three consultation documents that we've published over recent years in relation to this. But, obviously, that set of conversations with stakeholders will enable us to have that granular information in the RIA."*⁸⁶

⁸³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 95

⁸⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 96

⁸⁵ Ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru

⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 92

86. Yn y llythyr dyddiedig 22 Rhagfyr, fe wnaeth y Gweinidog gydnabod “dwyr risg ariannol eang arall yn gysylltiedig â'r Bil” nad ydynt wedi'u meintoli:

“Dyma gostau'r pwerau newydd y mae'r Bil yn eu rhoi i'r Comisiwn ac a fydd costau ychwanegol i gyrff yn y sector addysg drydyddol o ganlyniad i'r Bil neu weithredoedd y Comisiwn. Yn y ddau achos, y risg ariannol yw y byddai'r Bil yn gosod costau ychwanegol neu ormodol ar naill ai'r Comisiwn neu ddarparwyr yn y sector. Er nad yw'n bosibl mesur y risgiau hyn eto gan y byddant yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn unwaith y bydd wedi'i sefydlu, rydym yn parhau i fonitro ac ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i'r Bil yn gwbl angenrheidiol ac yn cael eu cadw mor isel â phosibl.”⁸⁷

Safbwynt y Pwyllgor

87. Mae'r Pwyllgor yn bryderus nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r costau i gyrff ar wahân i Lywodraeth Cymru a CCAUC/y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn deall bod y Bil yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i gyrff yn y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol newid eu gweithgareddau mewn meysydd penodol, ond mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw'r costau i gyrff eraill yn hysbys ar hyn o bryd. Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu effaith deddfwriaeth ar Lywodraeth Cymru a chyrff eraill, ac mae'n siomedig nad yw hyn wedi cael ei gynnwys.

88. Gan gydnabod y bydd ymgynghori yn parhau â rhanddeiliaid yn ystod hynt y Bil, mae'r Pwyllgor yn pwysleisio pwysigrwydd cwblhau asesiadau costau cyn cyflwyno Bil, nid yn unig er mwyn sicrhau y gall y Senedd graffu'n briodol arno, ond hefyd i sicrhau bod y rhanddeiliaid y mae'r Bil yn effeithio arnynt yn deall y goblygiadau o ran adnoddau yn iawn. Dylai effaith y Bil a'r costau cysylltiedig ar gyfer rhanddeiliaid fod yn ystyriaeth allweddol sy'n rhan o arfarniad opsiynau Llywodraeth Cymru. Mae'n siomedig na wnaed rhagor o waith yn y maes hwn cyn cyflwyno'r Bil.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn siomedig â'r diffyg gwybodaeth am gostau cysylltiedig y Bil i rhanddeiliaid ac felly ni all ddod i gasgliad ynghylch a yw'r adnoddau'n ddigonol ac yn rhesymol er mwyn cyflwyno'r deddfwriaeth.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chyrff eraill yn sgil y deddfwriaeth hon. Dylid creu'r costau ac unrhyw oblygiadau

⁸⁷ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Rhagfyr 2021

ariannol drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt a dylid cynnwys y manylion mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

5. Adolygiad ôl-weithredu

89. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn lunio adroddiad blynyddol ar gyfer Gweinidogion Cymru, gan gynnwys diweddariad ar ei berfformiad a'i gynnydd, a fydd yn cael ei osod gerbron y Senedd. Bydd y gwaith craffu ar y Comisiwn yn cael ei gynnal naill ai gan y Senedd mewn sesiwn lawn neu gan Bwyllgor dynodedig y Senedd.⁸⁸

90. Bydd y Comisiwn hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am gynllun gwireddu manteision, o fis Gorffennaf 2023, a fydd yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- yn disgrifio'r manteision a geir o sefydlu'r Comisiwn;
- yn nodi pwy sy'n gyfrifol am wireddu'r manteision;
- yn nodi'r sylfeini ar gyfer mesur y manteision;
- yn sail i'r gwaith gwerthuso ac adolygu ar ôl i'r rhaglen ddod i ben er mwyn pennu a yw'r manteision a gynlluniwyd wedi'u gwireddu.⁸⁹

91. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd yr adolygiad ôl-weithredu yn ystyried y costau yr eir iddynt gan y Comisiwn newydd ac yn ystyried y costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn yr adolygiadau hynny, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn eu hymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth^{90, 91}

92. Teimlai'r Gweinidog fod digon o wybodaeth fanwl wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, i ganiatáu gwaith craffu priodol ar yr adolygiad ôl-weithredu⁹². Ychwanegodd y canlynol:

"We've had a discussion today about where we anticipate being able to provide more information to the committee and to stakeholders, partly as a product of ongoing conversations with stakeholders in some areas and further analysis in others, and I think that the combination of the material

⁸⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 201

⁸⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 203

⁹⁰ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth

⁹¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 204

⁹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 115

*already provided and the recast RIA before Stage 2 will certainly put us in that position.*⁹³

Safbwynt y Pwyllgor

93. Cred y Pwyllgor fod cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn yn arfer da ac yn helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a bod gwerth am arian wedi'i gyflawni. Mae'r Pwyllgor yn falch bod adolygiad ôl-weithredu wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae'n ystyried bod y gofyniad i'r Comisiwn Iunio adroddiad blynyddol y mae'n rhaid ei osod gerbron y Senedd yn ddull rhesymol o fonitro canlyniadau'r ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnwys adolygiad ôl-weithredu o'r holl Filiau sydd gerbron y Senedd fel arfer safonol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y caiff gwerth am arian ei asesu.

⁹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021, paragraff 115